



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin
Croesyceiliog
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA32 8DN**

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2015

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/01/2016

Cyd-destun

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yn ysgol gymunedol, benodedig ddwyieithog, cymysg i ddisgyblion 11-18 oed ac yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Mae ynddi 870 o ddisgyblion o'i gymharu â 893 adeg yr arolygiad diwethaf gyda 182 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth. Mae'r ysgol yn gwasanaethu disgyblion o dref Caerfyrddin a phentrefi cyfagos yn ogystal â thalgylch eang ehangach.

Daw disgyblion o ardaloedd nad ydynt yn ffyniannus nac ychwaith dan anfantais economaidd. Mae gan 3.4% o ddisgyblion yr ysgol yr hawl i brydau ysgol am ddim. Mae'r ffigwr hwn yn sylweddol is na'r canran cenedlaethol o 17.4%. Daw llawer (tua 79%) o ddisgyblion o deuluoedd lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gartref, ond mae'r holl ddisgyblion yn medru'r Gymraeg i safon iaith gyntaf. Nid oes unrhyw ddisgybl yn derbyn cymorth addysgu ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion o'r ystod llawn o allu. Mae 14.7% o ddisgyblion ar gofrestr anghenion addysgu ychwanegol yr ysgol gyda 1.6% ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Dechreuodd y pennaeth presennol a'r dirprwy bennaeth yn eu swyddi yn Ionawr 2014. Mae dau bennaeth cynorthwyol, uwch athrawes a bwrsar yn cwblhau'r uwch dîm arwain.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yn 2015-2016 yw £3,494. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Sir Gâr yw £5,333 a'r lleiafswm yw £3,494. Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yn y safle isaf o'r 12 ysgol uwchradd yn Sir Gâr o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- perfformiad yn y rhan fwyaf o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 yn gyson uwch nag ydyw mewn ysgolion tebyg
- disgyblion yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu eu gwybodaeth, medrau a'u dealltwriaeth mewn llawer o wersi
- safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth y rhan fwyaf o'r disgyblion yn eithriadol mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol
- llawer o'r disgyblion ag agwedd bositif a chydwybodol at ddysgu ac maent yn arddangos rhinweddau aeddfed a chyfrifol
- ystod eang o brofiadau cyfoethog all-gyrsiol a diwylliannol sy'n hybu Cymreictod a datblygu hyder yn y disgyblion i berfformio'n gyhoeddus
- yr ysgol yn gymuned Gymreig hapus gydag ethos cynhwysol a chynhaliol

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth, gyda chefnogaeth yr uwch dîm arwain, yn darparu arweinyddiaeth o ansawdd uchel
- gweledigaeth y pennaeth yn pwysleisio pwysigrwydd darparu profiadau eang i bawb a sicrhau safonau cyflawniad uchel
- arweinwyr a rheolwyr yn cynllunio'n llwyddiannus i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol
- y llywodraethwyr wedi datblygu cyswllt cryf gydag adrannau
- systemau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant wedi cyfrannu at welliannau mewn agweddau megis ansawdd a chysondeb yr asesu, presenoldeb a safonau cyrhaeddiad yn 2015
- yr ysgol wedi datblygu perthynas agos gydag ystod eang o bartneriaid sy'n effeithio'n gadarnhaol ar safonau cyrhaeddiad

Fodd bynnag:

- mae rheolwyr a llywodraethwyr yn ansicr o arwyddocâd data wrth ystyried cyflawniad blaenorol neu berfformiad yn erbyn ysgolion tebyg

Argymhellion

A1 Codi safonau cyflawniad y bechgyn

A2 Cryfhau a chysoni ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol a rhannu'r arferion gorau

A3 Datblygu'r defnydd a dealltwriaeth o ddata ymysg rheolwyr a llywodraethwyr

A4 Miniogi'r cysylltiad rhwng prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn y prif ddangosyddion dros y pedair blynedd diwethaf yn amrywio gyda phatrwm cyffredinol o gynnydd ers 2013. Mae data dros dro ar gyfer 2015, yn dangos perfformiad cryf yn y rhan fwyaf o ddangosyddion, yn arbennig y rhai sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg.

Mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 2 sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion ar sail cymhwysedd am brydau ysgol am ddim, am bedair o'r pum mlynedd diwethaf. Yn 2015, dengys data dros dro bod y perfformiad wedi gwella'n sylweddol o ddeg pwynt canran. Mae'r perfformiad hwn yn gosod yr ysgol uwchlaw cyfartaledd y teulu ymhob blwyddyn, ac yn uwch na'r deilliannau a fodelwyd am dair allan o'r pum mlynedd diwethaf.

Dros y bum mlynedd diwethaf mae canran o ddisgyblion sy'n llwyddo i ennill pum gradd A* neu A yn eu TGAU wedi amrywio ond yn gyson yn sylweddol uwch na chyfartaledd y teulu.

Mae data dros dro yn dangos bod perfformiad yn y sgôr bwyntiau wedi'i gapio a'r trothwy lefel 2 wedi codi yn 2015 ac yn gosod yr ysgol uwchlaw cyfartaledd y teulu. Yn 2013 a 2014, roedd perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i gapio yn is na'r deilliannau a fodelwyd. Fodd bynnag, yn 2015, mae'r perfformiad yn well na'r deilliannau a fodelwyd ac yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg o ran cymhwysedd am brydau ysgol am ddim. Mae perfformiad yn y trothwy lefel 2 wedi cynyddu dros y tair blynedd diwethaf. Mae hyn yn gosod yr ysgol uwchben cyfartaledd y teulu am y ddwy flynedd diwethaf ac yn y 50% uwch o ysgolion tebyg.

Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n ennill tair gradd A* - C yn y safon A neu gyfwerth yn 2015 yn uwch na chyfartaledd y teulu. Fodd bynnag, yn 2013 a 2014, roedd perfformiad disgyblion yn y mesur hwn yn is na chyfartaledd y teulu. Yn 2015, mae'r nifer o ddisgyblion sy'n ennill tair gradd A* ac A neu gyfwerth wedi gostwng ond yn parhau yn uwch na chyfartaledd y teulu. Mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 3 yn gyson uchel gyda phob disgybl yn llwyddo i'w gyrraedd ym mhedair o'r pum mlynedd diwethaf. Gwelir cynnydd cyson dros dair blynedd yn y sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach sy'n gosod yr ysgol uwchlaw'r teulu am y tro cyntaf ers 2012.

Mae data gwerth ychwanegol ar gyfer 2014 yn dangos bod disgyblion yn gwneud cynnydd tebyg i'r disgwyladau o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 4 ac o gyfnod allweddol 3 i gyfnod allweddol 4. Serch hynny, mae'r cynnydd a wna disgyblion yn y trothwy lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg a'r trothwy lefel 2 ehangach ychydig yn is na'r disgwyladau ac yn gosod yr ysgol yn yr hanner is o ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r dangosydd pynciau craidd wedi gostwng ychydig yn 2015 ar ôl codi'n raddol dros y tair blynedd flaenorol. Mae'r perfformiad yn is na'r deilliannau a fodelwyd ac yn gosod yr ysgol yn yr hanner is o ysgolion tebyg o ran cymhwysedd am brydau ysgol am ddim.

Yng nghyfnod allweddol 3, nid yw bechgyn yn perfformio cystal â'r merched yn y dangosydd pynciau craidd ac mae'r bwch yn cynyddu. Mae nifer sylweddol yn llai o fechgyn yn cyrraedd y lefelau uchaf mewn Cymraeg a Saesneg.

Mae gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched yng nghyfnod allweddol 4 ers tair blynedd. Mae data dros dro 2015 yn dangos nad yw bechgyn yn gwneud cystal â'r merched yn y dangosyddion sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg.

Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn eu targedau.

Nid oes unrhyw ddisgybl wedi gadael yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 heb gymhwyster cydnabyddedig ers pum mlynedd. Mae pob disgybl sy'n gadael yn 16 oed yn parhau i fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae hyn yn well na lefelau'r awdurdod lleol a Chymru.

Mewn llawer o'r gwersi mae disgyblion yn dangos diddordeb yn y gwaith ac yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cydweithio'n llwyddiannus i drafod ac i wella eu gwaith. Mae bron pob disgybl yn y gwersi hyn yn gwrando'n astud ar yr athro a'u cyfoedion ac yn gweithredu'n effeithiol ar gyfarwyddiadau. Mae llawer yn barod i ymateb i gwestiynu'r athro ac mae lleiafrif yn rhoi ymatebion estynedig hyderus gan ddefnyddio geirfa eang ac aeddfed yn y Gymraeg.

Mewn ychydig o wersi gwna'r disgyblion gynnydd ardderchog. Yn y gwersi hyn mae bron pob disgybl yn galw i gof wybodaeth flaenorol yn effeithiol iawn ac yn ei chymhwyso yn arbennig i sefyllfaoedd newydd. Mae'r holl ddisgyblion yn cydweithio'n eithriadol o gynhyrchiol mewn parau neu grŵp ac yn gwneud cynnydd cyflym yn eu medrau a'u gwybodaeth bynciol. Maent yn adnabod eu gwendidau eu hunain ac yn gweithredu'n effeithiol iawn i'w gwella.

Mewn lleiafrif o wersi gwna'r disgyblion gynnydd priodol yn y pwnc ac yn eu medrau. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn ymhelaethu digon wrth ymateb i gwestiynau'r athrawon. Yn y gwersi hyn mae llawer o ddisgyblion yn rhy oddefol ac mae lleiafrif yn colli diddordeb yn eu gwaith, yn arbennig mewn tasgau undonog a hir.

Mewn llawer o bynciau mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn darllen yn effeithiol wrth sgimio, sganio, dehongli gwybodaeth a mynegi barn. Mae llawer o'r disgyblion yn darllen amrywiaeth o destunau yn fanwl gywir ac yn cywain gwybodaeth yn fedrus. Mae lleiafrif ohonynt yn llwyddo i gymhwyso eu huwch sgiliau darllen wrth ddadansoddi testun ac ymateb i'r hyn a ddarllenwyd. Fodd bynnag, mae ychydig o'r disgyblion yn cael trafferth darganfod ffeithiau perthnasol wrth ddarllen a deall.

Mae disgyblion uwch eu gallu yn ysgrifennu'n drawiadol er mwyn cyfleu naws a chreu effaith. Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion fynegi barn yn glir ac yn aeddfed am faterion o bwys a dengys y mwyafrif y gallu i strwythuro brawddegau a pharagraffau yn rhesymegol. Mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio geirfa bynciol yn effeithiol ac yn trefnu eu gwaith yn synhwyrol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymfalchïo yn y modd y maent yn cyflwyno eu gwaith.

Yn y mwyafrif o bynciau mae'r disgyblion yn ailddrafftio'u gwaith yn gyson ac yn gwella ansawdd eu gwaith yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae nifer o wallau treiglo a sillafu elfennol yng ngwaith lleiafrif o'r disgyblion ac nid yw eu medrau ysgrifennu estynedig wedi'u datblygu'n ddigonol. Yn gyffredinol, mae safon ysgrifennu'r bechgyn yn wannach na'r merched.

Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn briodol i'r gwaith yn arbennig mewn gwyddoniaeth a daearyddiaeth. Mae llawer o'r disgyblion yn trin data yn briodol ac yn ei arddangos mewn graffiau gan ddewis y raddfa gywir. Maent hefyd yn eu dehongli'n gywir trwy adnabod patrymau yn y data. Mae gan lawer o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o dulliau cyfrifo gan gynnwys dulliau pen ac ysgrifenedig. Fodd bynnag, mae ychydig iawn o'r disgyblion yn dibynnu'n ormodol ar gyfrifiannell wrth gyflawni cyfrifiadau syml.

Mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio'r iaith Gymraeg yn fedrus yn y gwersi ac i sgwrsio â'i gilydd mewn sefyllfaoedd anffurfiol o gwmpas yr ysgol.

Lles: Rhagorol

Mae lles disgyblion yn nodwedd ardderchog o fywyd yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus bod yr ysgol yn delio yn effeithiol iawn â'r ychydig iawn o achosion o fwlio sydd yn codi. Mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n heini ac maent yn ymwybodol o egwyddorion bwya ac yfed yn iach. Mae'r nifer o ddisgyblion sydd yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau ffitrwydd a chwaraeon yn uchel.

Mae presenoldeb disgyblion wedi gwella ac am y ddwy flynedd diwethaf yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran cymhwysedd i brydau ysgol am ddim.

Mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol mae safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth y rhan fwyaf o'r disgyblion yn eithriadol. Maent yn dangos parch a chwarteisi at ei gilydd ac at oedolion. Yn y gwersi, mae gan lawer o'r disgyblion agwedd bositif a chydwybodol at ddysgu ac maent yn arddangos rhinweddau aeddfed a chyfrifol. O ganlyniad i'r nodweddion cadarnhaol hyn, nid yw'r ysgol wedi gwahardd unrhyw ddisgybl dros dro nag yn barhaol ers dros dair blynedd.

Nodwedd ragorol o fywyd yr ysgol yw cyfranogiad cyfran uchel o ddisgyblion mewn amrediad eang o weithgareddau diwylliannol er enghraifft, perfformiadau drama a cherdd o safon uchel iawn a chystadlaethau lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at eu hyder wrth gyfathrebu'n gyhoeddus. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn lluo o weithgareddau cymdeithasol gwerthfawr sy'n hybu balchder y disgyblion yn eu hysgol a'u diwylliant Cymreig.

Mae'r cyngor ysgol, y grŵp Eco a'r pwyllgor hyrwyddo Cymreictod ' P4C ' yn gwneud cyfraniadau arwyddocaol at y prosesau gwneud penderfyniadau yn yr ysgol. Nodwedd arbennig iawn yw cyfraniad y pwyllgor dyngarol i ddatblygu empathi a thosturi tuag at eraill trwy amrywiol weithgareddau codi arian ysgol gyfan. O ganlyniad i'r safonau uchel o gyfranogiad yn y gweithgareddau hyn mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol aeddfed a chadarn sydd yn eu paratoi yn effeithiol iawn at y cyfnod nesaf yn eu bywyd.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Rhagorol

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau dysgu sy'n cwrdd a'r gofynion statudol. Mae gan yr ysgol bartneriaethau effeithiol gydag ysgolion cynradd y dalgylch sy'n cynnal safonau a sicrhau dilyniant esmwyth o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3. Mae partneriaethau gwerthfawr rhwng yr ysgol, coleg addysg bellach ac ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill yr ardal yn ehangu'r dewisiadau ar gyfer cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Mae'r ysgol yn cynnig ystod ardderchog o weithgareddau allgyrsiol amrywiol cyson megis y clwb llythyru, y 'Gwarchodlu odli', grŵp garddio a llu o weithgareddau chwaraeon a diwylliannol. Mae'r arlwy eang yn cyfoethogi profiadau'r dysgwyr ac yn arwain at safonau cyrhaeddiad uchel.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn effeithiol i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r ddarpariaeth i godi safonau llythrennedd a rhifedd yn cael ei chydlynu a'i chynllunio'n dda. O ganlyniad, mae'r medrau llythrennedd yn cael eu datblygu'n llwyddiannus mewn llawer o wersi ar draws y cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau meddwl a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion yn briodol. Mae'r ysgol yn darparu rhaglen effeithiol iawn o gefnogaeth ychwanegol i ddisgyblion sydd ag anawsterau gyda darllen a rhif. Mae hyn yn cynnwys clybiau darllen, cymorth gyda gwaith rhif, medrau trefnu a defnydd o'r chweched dosbarth fel 'Stydi Bydis'.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn gryfder amlwg yn yr ysgol. Cyflwynir ystod eang o brofiadau sy'n cynnwys gweithgareddau allgyrsiol, clybiau'r Urdd, Eisteddfod ysgol, a theithiau ac ymweliadau addysgol di-ri. Galluoga hyn i'r dysgwyr gywain dealltwriaeth ddyfnach o'u cymuned a'u gwlad sy'n eu gwneud yn ddinasyddion mwy cyflawn.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang yn nodwedd gref o gwricwlwm yr ysgol. Ceir cyfuniad o weithgareddau buddiol o fewn gwersi ac yn allgyrsiol sy'n cyfrannu'n helaeth iawn at ddealltwriaeth disgyblion o faterion cynaliadwyedd. Mae'r pwyllgor eco yn weithgar iawn a thrwy'r cynllun Erasmus mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth dda iawn o'u rôl wrth gyfrannu at ac arwain prosiectau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Addysgu: Da

Mae bron pob athro yn meithrin perthynas waith fuddiol gyda'r disgyblion. Mae ganddynt wybodaeth bynciol drwyadl ac mae rheolaeth ddosbarth effeithiol yn nodwedd amlwg yn y rhan fwyaf o wersi. Mae rhan fwyaf o'r staff yn fodolau iaith dda. Mewn llawer o wersi, mae cynllunio manwl yr athrawon yn sicrhau gweithgareddau sydd yn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion yn dda.

Yn yr ychydig o wersi effeithiol iawn, mae'r gweithgareddau wedi'u cynllunio'n ddychmygus i sicrhau her gynyddol ac ennyn diddordeb y disgyblion. Ceir arweiniad clir a bywiog sy'n sbarduno disgyblion i wneud eu gorau. Nodwedd amlwg yn y gwersi hyn yw'r her uchel iawn a gynigir i'r disgyblion gan sicrhau dysgu nerthol.

Yn y mwyafrif o'r gwersi, rhennir amcanion y wers yn fedrus. Mae'r athrawon yn cynllunio ystod o weithgareddau i wireddu'r amcanion hyn yn llwyddiannus. Gwelir defnydd buddiol o waith grŵp gyda chyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion drwy drafodaeth. Mae'r mwyafrif o athrawon yn cynnig adborth llafar defnyddiol i ddatblygu medrau disgyblion. Yn y lleiafrif o wersi, defnyddir dulliau cwestiynu treiddgar i ymestyn gwybodaeth a phrociio dealltwriaeth y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw hyn yn arfer digon cyson. O ganlyniad, mewn ychydig o achosion nid yw athrawon yn defnyddio cwestiynau agored na rhai dilynol yn ddigon effeithiol er mwyn ymestyn medrau meddwl y disgyblion.

Mewn ychydig o wersi, nid yw disgwyliadau'r athro yn ddigon uchel i hybu cynnydd pob disgybl ac nid yw'r disgyblion mwyaf galluog yn cael eu hymestyn yn briodol. Yn ogystal, nid yw'r tasgau wedi'u cynllunio'n briodol i fodloni anghenion pob disgybl yn y dosbarth.

Mewn ychydig o wersi, mae rhediad y wers yn rhy araf ac nid yw'r athro yn gwirio cynnydd a dealltwriaeth y disgyblion yn ddigon aml er mwyn ymateb i'w hanghenion.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn marcio llyfrau'n gyson. Mae llawer yn ysgrifennu sylwadau defnyddiol er mwyn i ddisgyblion wybod sut i wella. Mae ychydig o athrawon yn darparu adborth arbennig sy'n cynnwys tasgau dilynol wedi eu teilwrio i ddatblygu medrau penodol y disgyblion. Mewn ychydig iawn o achosion, fodd bynnag, nid yw'r marcio'n rheolaidd ac mae'r sylwadau'n rhy arwynebol i fod o fudd i'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn gosod targedau priodol i bob un o'i disgyblion. Mae ganddi systemau effeithiol ar gyfer monitro eu cynnydd a threfniadau priodol i'w cefnogi.

Mae rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi'r wybodaeth mae'r ysgol yn ei darparu am gynydd eu plant. Maent yn derbyn adroddiad cynhwysfawr yn flynyddol sydd yn cynnwys manylion perthnasol ynghylch meysydd i'w datblygu.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned glos a gofalgwr. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn gynhwysfawr. Mae gan yr ysgol drefniadau helaeth ar gyfer hybu bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r disgyblion yn derbyn cyfleoedd buddiol i ddatblygu eu medrau cymdeithasol a chymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol o safon uchel megis sioeau, eisteddfodau a'r Wyl Cerdd Dant. Mae ansawdd eithriadol y gwasanaethau boreol o ran datblygiad ysbrydol a moesol yn nodwedd arbennig iawn o'r ysgol. Mae rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau i hybu addysg bersonol a chymdeithasol disgyblion ac mae'r ysgol yn darparu cyngor buddiol i ddisgyblion yn eu dewisiadau o gysiau neu yrfa. Mae gan yr ysgol berthynas briodol gydag asiantaethau amlddisgyblaethol allanol i gefnogi a hybu iechyd a lles y disgyblion yn briodol.

Mae gan yr adran anghenion dysgu ychwanegol adnabyddiaeth gynhwysfawr o anghenion dysgu disgyblion penodol. Mae proffiliau personol y disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i ddiwallu eu hanghenion. Fodd bynnag, yn gyffredinol nid yw athrawon pwnc yn gwneud digon o ddefnydd o'r wybodaeth hon yn y gwersi prif lif. Nodwedd gref yw'r ystod o ymyraethau effeithiol i gefnogi disgyblion unigol i wella eu medrau'n llwyddiannus mewn grwpiau bychain. Mae'r defnydd o ddisgyblion y chweched dosbarth a thîm profiadol o gymorthyddion dosbarth i gefnogi'r disgyblion mewn sesiynau ymyrraeth yn hynod effeithiol.

Mae gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu plant ac nid ydynt yn destun pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yn gymuned Gymreig hapus gydag ethos cynhwysol a chynhaliol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn dangos balchder yn eu Cymreictod ac mae'r disgyblion hŷn yn annog a chynnal y rhai iau yn greadigol iawn. Mae'r ysgol yn gweithio'n galed i sicrhau goddefgarwch a bod pob disgybl ac aelod o staff yn rhydd oddi wrth aflonyddwch yn yr ysgol. Mae'n gweithio'n llwyddiannus i hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o amrywiaeth a gwerthfawrogi gwahanol ddiwylliannau.

Mae'r adeiladau yn lân ac yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol. Maent yn addas ar gyfer nifer y disgyblion a'r gweithgareddau a gynigir. Mae gan yr ysgol adnoddau pwrpasol sy'n sicrhau mynediad llawn i holl weithgareddau'r ysgol i bob disgybl neu oedolyn gydag anabledau. Mae meysydd allanol eang yr ysgol, sy'n cynnwys caeau chwarae amrywiol ynghyd â chyfleusterau mewnol, yn hybu ymarfer corff a byw'n iach yn effeithiol. Enghreifftiau o hynny yw'r wal ddringo yn y neuadd chwaraeon a'r cwrs beicio mynydd.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Ers Ionawr 2014, mae aelodaeth y tîm arwain wedi newid gydag apwyntiad pennaeth, dirprwy bennaeth a phennaeth cynorthwyol newydd. Er ei fod yn dîm gymharol newydd, mae'r aelodau wedi ennyn parch a chefnogaeth staff, disgyblion a rhieni'r ysgol ac yn cydweithio'n effeithiol. Yn ddiweddar, mae'r pennaeth wedi ail-strwythuro cyfrifoldebau'r tîm yn addas er mwyn manteisio ar gryfderau ac arbenigeddau unigolion.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sydd wedi ei selio'n gadarn ar ddatblygu'r dinesydd cyflawn. Er mwyn gwireddu hyn, mae'n pwysleisio pwysigrwydd darparu profiadau eang i bawb a sicrhau safonau da o ran cyflawniad disgyblion. Mae'r pennaeth yn gyfathrebwraig huawdl ac yn darparu arweinyddiaeth o ansawdd uchel. Mae'n derbyn cefnogaeth dda iawn gan y dirprwy bennaeth a gweddill y tîm arwain.

Mae gan athrawon a staff ategol swydd ddisgrifiadau cyfredol sy'n cael eu diweddarau'n flynyddol. Yn ogystal, mae gan yr ysgol galendr defnyddiol o gyfarfodydd, gweithgareddau arweinyddiaeth a phrofiadau allgyrsiol. Mae llunio'r calendr hwn wedi sicrhau mwy o drefn a gwell dilyniant rhwng cyfarfodydd a gweithgareddau arweinyddiaeth. Mae llinellau atebolrwydd yn glir ar draws yr ysgol ac mae gan arweinwyr ar bob lefel wybodaeth addas am safonau yn eu meysydd cyfrifoldeb. Fodd bynnag, nid yw rhai cyfarfodydd pwysig er enghraifft cyfarfodydd arweinwyr canol a chyfarfodydd rheoli llinell yn digwydd yn ddigon aml er mwyn rhannu digwyliadau o ran gweithredu polisïau ysgol gyfan a chefnogi adrannau sydd yn tangyflawni.

Mae dealltwriaeth arweinwyr o ddata i fonitro perfformiad a thracio cynnydd wedi cryfhau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Ers penodiad y pennaeth, mae systemau'r ysgol ar gyfer rheoli perfformiad staff wedi'u cryfhau. Er eu bod yn addas, ceir ychydig o amrywiaeth yn ansawdd amcanion unigolion ac mae hyn yn cwtogi rhywfaint ar effeithiolrwydd y broses.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn llwyddiannus i lawer o flaenoriaethau cenedlaethol yn enwedig datblygiadau cwricwlaidd er enghraifft cyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn ymfalchïo yn ei llwyddiannau. Mae ganddynt dealltwriaeth briodol o agweddau ar eu rôl ac yn darparu synnwyr clir o gyfeiriad. Nodwedd gref o'u gwaith yw'r cyswllt mae llywodraethwyr wedi datblygu gydag adrannau unigol. Mae'r trefniadau hyn yn darparu cyfleoedd buddiol i lywodraethwyr gwrrd a thrafod safonau a darpariaeth adrannau unigol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw llywodraethwyr yn trafod materion yn ymwneud â safonau yn ddigon aml ac mae eu dealltwriaeth o arwyddocâd data perfformiad yn ansicr.

Gwella ansawdd: Digonol

Mae gan yr ysgol systemau addas ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Maent wedi cyfrannu at welliannau mewn agweddau megis ansawdd a chysondeb yr asesu, presenoldeb a safonau cyrhaeddiad yn 2015.

Mae gan yr ysgol galendr o weithgareddau defnyddiol i gasglu gwybodaeth uniongyrchol drwy graffu ar waith disgyblion, arsylwi gwersi a chanfasio barn rhieni a disgyblion. Caiff yr arsylwadau yn dilyn y gweithgareddau hyn eu cyflwyno mewn modd arfarnol a phriodol. Fodd bynnag, nid yw'r cofnodion o'r broses arsylwi gwersi'n cyflwyno darlun digon trylwyr a gwrthrychol o safonau gwaith y disgyblion neu ansawdd yr addysgu. O ganlyniad, nid yw'r ysgol yn adnabod ychydig o feysydd i'w gwella yn ei darpariaeth.

Mae adroddiad hunan arfarnu'r ysgol gyfan yn adnabod llawer o'i chryfderau ac yn amlygu ychydig o feysydd i'w gwella yn gywir. Mae'r adroddiad yn cynnwys arfarniad addas o ddata perfformiad. Fodd bynnag, nid oes gwerthusiad o berfformiad yn y dangosydd lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu'r Gymraeg a mathemateg yn erbyn deilliannau sydd wedi'u modelu. O ganlyniad, mae'r ysgol yn rhy hael wrth arfarnu ei llwyddiant.

Mae bron pob adran yn cyflawni adroddiad hunanarfarnu adrannol addas. Maent yn cynnwys dadansoddiad addas o ddata perfformiad a thystiolaeth uniongyrchol briodol. Fodd bynnag, yn gyffredinol nid yw arweinwyr canol yn rhoi digon o bwys ar ddadansoddiadau yn erbyn cyflawniad blaenorol neu safle'r ysgol o fewn y meincnodau prydau ysgol am ddim.

Mae cysylltiad priodol rhwng llawer o'r meysydd i'w gwella a adnabuwyd yn yr adroddiad hunanarfarnu a chynlluniau gwella'r ysgol a'r adrannau. Mae'r uwch dim arwain yn defnyddio canfyddiadau'r broses hunanarfarnu i osod blaenoriaethau addas ar gyfer gwelliant. Mae'r cynllun gwella ysgol gyfan a'r rhai adrannol yn nodi costau a chyfrifoldebau addas ac mae llawer o'r meini prawf llwyddiant ynddynt yn glir a mesuradwy. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun gwella ysgol gyfan, na'r rhai adrannol yn ymateb yn ddigon uniongyrchol i ychydig o feysydd i'w gwella a adnabuwyd yn y prosesau hunan arfarnu. Yn ogystal, nid yw lleiafrif o'r meini prawf llwyddiant yn fesuradwy ac nid oes cerrig milltir clir i dracio cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol wedi datblygu perthynas agos gydag ystod eang o bartneriaid sy'n effeithio'n gadarnhaol ar safonau cyrhaeddiad a lles ei disgyblion.

Mae systemau pontio cadarn yn bodoli gyda'r nifer sylweddol o ysgolion cynradd sydd yn bwydo'r ysgol. Mae cydweithio agos yn sicrhau dilyniant effeithiol o ran llythrennedd a rhifedd rhwng y cynradd ac uwchradd. Caiff iechyd a ffitrwydd corfforol eu hybu'n dda er enghraifft drwy'r gwaith gan swyddog rygbi'r ysgol sydd hefyd yn datblygu'r bartneriaeth werthfawr gyda chlybiau rygbi lleol.

